218

Darparu celf ewinedd

Mae celf ewinedd yn driniaeth ychwanegol greadigol sy'n gallu cael ei gwneud ar ewinedd naturiol ac ar welliannau ewinedd ar y dwylo a'r traed. Mae'r uned hon yn sôn am greu amryw o ddyluniadau gan ddefnyddio llawer o wahanol dechnegau. Byddwch yn dysgu sut i ymgynghori a chyfathrebu gyda'ch cleient, dyfeisio cynllun triniaeth i siwtio cyflwr yr ewinedd a'r croen, a rhoi'r dyluniadau hyn ar yr ewinedd. Byddwch hefyd yn dysgu nifer o dechnegau i greu llawer o wahanol ddyluniadau, yn cynnwys caboli, rhoi gemau, gliterau, trosluniau a thechnegau yn defnyddio tâp a phen streipio. Rhaid cadw at arferion iechyd, diogelwch a hylendid drwy gydol pob triniaeth, a rhaid i chi ddysgu'r amodau fydd yn eich atal rhag gwneud y driniaeth.

Taflen marcio aseiniad
Uned 218 Darparu celf ewinedd

Bydd eich asesydd yn eich marcio ar bob un o'r tasgau ymarferol yn yr uned hon. Caiff y dudalen hon ei defnyddio i gyfrifo eich gradd gyffredinol ar gyfer yr uned hon. Rhaid i chi basio **pob** rhan o'r tasgau i allu ennill gradd. Ar gyfer y tasgau ymarferol, mae llwyddo'n rhoi 1 pwynt, teilyngdod yn rhoi 2 bwynt a rhagoriaeth yn rhoi 3 phwynt.

Beth mae'n rhaid i chi ei wybod	Ticiwch pan fydd wedi'i gwblhau
Tasg 1a: taflen wybodaeth	
Tasg 1b: taflen ffeithiau	
Tasg 1c: anatomi a ffisioleg	

Beth mae'n rhaid i chi ei wneud	Gradd	Pwyntiau
Tasg 2: arsylwi ymarferol		

Gradd gyffredinol



Enw'r ymgeisydd:

Llofnod yr Dyddiad:

Llofnod Asesydd: Dyddiad:

Llofnod y cydlynydd sicrhau ansawdd (lle mae hynny'n briodol): Dyddiad:

Llofnod y Gwiriwr Allanol (lle mae hynny'n briodol): Dyddiad:

Delwedd diolch i Becky Orme

Beth yw ei ystyr?

Mae esboniad isod o rai geiriau defnyddiol

Cyngor ôl-ofal
Rhoddir cyngor i'r cleient yn dilyn rhoi celf ewinedd er mwyn i'r cleient gadw'r dyluniad.

Gwrth-adwaith
Adwaith anffafriol all ddigwydd naill ai

yn ystod neu ar ôl rhoi celf ewinedd, e.e. croen yn chwyddo.

Gwrtharwydd
Cyflwr fydd yn rhwystro gwneud celf ewinedd, e.e. colli ewin.

COSHH (Rheoli Sylweddau Sy'n Beryglus i Iechyd)
Mae hyn yn ymwneud â chynhyrchion allai achosi niwed o'u defnyddio'n anghywir; rhai y mae'n rhaid dilyn cyfarwyddiadau clir ar gyfer eu storio a'u trafod.

Cwtigl
Y plygiad hyblyg o groen o gwmpas gwaelod yr ewin.

Diheintio
Y broses o ddinistrio rhai ond nid pob un o'r micro-organebau.

Ffoiliau
Mae'r rhain ar gael mewn nifer o batrymau a lliwiau a gellir eu rhoi ar yr ewin i roi sglein metelig.

Gemfeini
Cerrig bach amrywiol y gellir eu gludo ar yr

ewin, megis rheinstonau, cerrig fflat neu berlau.

Gliter
Powdwr trwm, sgleiniog sy'n cael ei ddefnyddio i wneud i'r ewin befrio.

Plat yr ewin

Darn pinc yr ewin.

Ewinedd yn gwahanu
Lle mae'r ewin yn codi oddi ar gwely'r ewin.

PPE
Cyfarpar diogelu personol, megis menig y gellir eu taflu a masgiau wyneb.

Sterileiddiad
Y broses o ddinistrio'r holl ficro-organebau a'u sborau.

Pin streipio

Brwsh main iawn sy'n cael ei ddefnyddio i

wneud streipiau neu streipiau sy'n tapro ar yr ewin.

Trosluniau

Mae'r rhain fel arfer yn hunanadlynol a gellir eu rhoi ar ewinedd yn hawdd drwy eu pilio oddi ar y ddalen gefnu.

Delwedd diolch i Becky Orme

Delwedd diolch i Becky Orme

Beth mae'n rhaid i chi ei wybod

Rhaid i chi allu:

Awgrym adolygu

Tynnwch eich dyluniad ar bapur cyn ceisio ei roi ar yr ewin.

1. Disgrifio gofynion y salon ar gyfer eich paratoi eich hun, y cleient a'r ardal waith
2. Datgan yr amodau amgylcheddol sy'n addas ar gyfer celf ewinedd
3. Disgrifio gwahanol dechnegau ymgynghori a ddefnyddir i adnabod amcanion triniaeth
4. Esbonio pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r ewinedd a'r croen
5. Disgrifio sut i ddewis cynhyrchion, cyfarpar ac offer i siwtio anghenion triniaeth, a chyflwr ewinedd cleient
6. Adnabod y gwahanol gyflyrau ewinedd
7. Esbonio'r gwrtharwyddion sy'n atal neu'n cyfyngu ar gelf ewinedd
8. Nodi sut i gyfathrebu ac ymddwyn mewn dull proffesiynol
9. Disgrifio arferion gwaith iechyd a diogelwch
10. Nodi pwysigrwydd eich lleoli eich hun a'r cleient yn gywir drwy gydol y driniaeth

Parhad ar y dudalen nesaf

Mae haen uchaf gliter yn rhoi edrychiad gwych ar gyfer gyda'r nos.

Delwedd diolch i EzFlow

11 Nodi pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion, offer, cyfarpar a thechnegau i siwtio anghenion triniaeth a chyflwr ewinedd y cleient

12 Disgrifio sut y gall triniaethau gael eu haddasu i siwtio anghenion triniaeth cleient a chyflwr ewinedd

13 Nodi'r gwrth-adweithiau all ddigwydd yn ystod ac ar ôl y gwasanaethau a sut i ymateb

14 Nodi pwysigrwydd cwblhau'r driniaeth er boddhad y cleient

15 Nodi pwysigrwydd cwblhau cofnodion triniaeth

16 Datgan y cyngor ôl-ofal ddylai gael ei ddarparu

17 Disgrifio clefydau ac anhwylderau'r ewin

18 Disgrifio strwythur a swyddogaethau'r ewin

Awgrym adolygu

Caniatewch ddigon o amser i'r farnais sychu, yn enwedig rhwng haenau.

Cofiwch bod rhaid selio pob celf gyda haen uchaf clir neu gliter.

Delwedd diolch i United Beauty

Bob tro y byddwch yn creu dyluniad

newydd i gleient, gwnewch gopio ohono ar flaen ewin.

Cyn bo hir bydd gennych chi ddigon o flaenau ewinedd i greu bwrdd dyluniadau.

Ystyriwch y tymor wrth gynllunio eich dyluniadau. Er enghraifft, blodeuog yn wych ar gyfer yr haf!

Datblygwch amrywiaeth o ddyluniadau ar flaenau ewinedd a'u harddangos ar hambwrdd er mwyn i gleientiaid allu gweld syniadau gwahanol.

Delwedd diolch i Professionails

Delwedd diolch i EzFlow

Gwnewch yn siŵr fod gennych chi arwyneb cadarn i weithio arno ac os yn bosibl gorffwyswch eich llaw ar bad trin dwylo.

Celf ewinedd

Cofiwch fod ewinedd eich cleientiaid yn ategolion iddyn nhw, yn union fel bag llaw, pâr o esgidiau neu emwaith.

Does dim rhaid i chi gadw at gliter yn eich celf ewinedd - byddwch yn greadigol!

Delwedd diolch i Becky Orme

Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Arsylwadau ymarfer

Mae'r dudalen hon yn dangos beth sydd angen i chi ei wneud yn ystod eich tasg ymarferol. Gallwch edrych arni ymlaen llaw, ond **nid** oes hawl iddi fod gyda chi tra'ch bod yn gwneud eich tasg ymarferol. Rhaid i chi fodloni **pob un** o'r meini prawf; gallwch ennill 1 marc, 2 farc neu 3 marc ar gyfer y meini prawf sydd wedi eu nodi gyda *.

Siart trosi

Gradd	Marciau
Llwyddo	11–13
Teilyngdod	14–18
Rhagoriaeth	19–21

○ Ticiwch ar ôl i'r holl ofynion cyn-arsylwi gael eu bodloni.

		Darparu celf ewinedd		
1	Paratoi eich hun, y cleient a'r ardal waith ar gyfer gwasanaeth celf ewinedd	1		
2	Defnyddio technegau ymgynghori addas i nodi amcanion triniaeth *	1	2	3
3	Gwneud dadansoddiad o'r ewinedd a'r croen	1		
4	Darparu argymhellion clir i'r cleient *	1	2	3
5	Lleoli eich hun, y cleient a'r cyfarpar yn gywir drwy gydol y gwasanaeth	1		
6	Dilyn arferion gwaith iechyd a diogelwch	1		
7	Cyfathrebu ac ymddwyn mewn modd proffesiynol	1		
8	Dewis a defnyddio cynnyrch, cyfarpar, offer a thechnegau i siwtio anghenion gwasanaeth, a chyflwr ewinedd y cleient *	1	2	3
9	Cwblhau'r gwasanaeth i fodloni'r cleient *	1	2	3
10	Cofnodi canlyniadau'r driniaeth gyda'r cleient	1		
11	Darparu cyngor ôl-ofal addas *	1	2	3

Cyfansymiau

Gradd

Llofnod yr ymgeisydd a dyddiad

Llofnod Asesydd a dyddiad

Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Tabl disgrifwyr arsylwadau ymarfer

Mae'r tabl hwn yn dangos beth sydd angen i chi ei wneud i ennill 1, 2 neu 3 marc ar gyfer y meini prawf a nodwyd gyda * ar y dudalen flaenorol.

	1 marc	2 farc	3 marc
2 **Defnyddio technegau ymgynghori addas i adnabod amcanion gwasanaeth**	Ymgynghoriad sylfaenol wedi'i wneud Enghreifftiau: defnyddio cwestiynau caeedig drwyddi draw, cwestiynu'n cynnwys gwrtharwyddion,	Ymgynghoriad da wedi'i wneud Enghreifftiau: cwestiynau agored a chaeedig, iaith y corff cadarnhaol, cwestiynau'n cynnwys gwrtharwyddion, iechyd cyffredinol, ffordd o fyw a disgwyliadau	Ymgynghoriad trylwyr wedi'i wneud Enghreifftiau: defnyddio cwestiynau agored a chaeedig, defnydd da o gymhorthion gweledol, defnydd effeithiol o iaith y corff, ailadrodd cyfarwyddiadau yn glir i gael cadarnhad
4 **Darparu argymhellion clir i'r cleient**	Argymhellir cynllun triniaeth sylfaenol Enghraifft: adnabod amcanion y gwasanaeth	Argymhellir cynllun triniaeth da Enghreifftiau: amcanion y gwasanaeth wedi'u nodi, gan gymryd i ystyriaeth cyflwr yr ewinedd a disgwyliadau'r cleient	Argymhellir cynllun triniaeth trylwyr Enghreifftiau: adnabod amcanion y gwasanaeth, cymryd i ystyriaeth gyflwr yr ewinedd, iechyd cyffredinol, meddyginiaethau, ffordd o fyw'r cleient, disgwyliadau, sefydlu'r achlysur, dewisiadau lliwiau a'r defnydd presennol o gelf ewinedd
8 **Dewis a defnyddio'r cynhyrchion, cyfarpar, offer a thechnegau i siwtio anghenion gwasanaeth y cleient a chyflyrau ewinedd**	Dewis a defnyddio cynhyrchion, cyfarpar ac offer i siwtio amcanion y driniaeth Enghraifft: tynnu'r holl gynhyrchion ewinedd gormodol o'r croen cyfagos	Dewis a defnyddio cynhyrchion, cyfarpar ac offer i siwtio amcanion y driniaeth Enghreifftiau: tynnu'r holl gynhyrchion ewinedd gormodol o'r croen cyfagos, mae'r dyluniad ewinedd yn gytbwys ac yn gyson ar bob ewin, cyfathrebu gyda'r cleient drwyddi draw i gadarnhau eu bod yn fodlon	Dewis a defnyddio cynhyrchion, cyfarpar ac offer i siwtio amcanion y driniaeth Enghreifftiau: tynnu'r holl gynhyrchion ewinedd gormodol o'r croen cyfagos, mae'r dyluniad ewinedd yn gytbwys ac yn gyson ar bob ewin, mae'r technegau gafodd eu dewis yn llwyddiannus, e.e. wedi'u hasio'n dda neu manylion wedi'u diffinio'n glir, cyfathrebu gyda'r cleient drwyddi draw i gadarnhau eu bod yn fodlon

Beth mae'n rhaid i chi ei wneud

Tabl disgrifwyr arsylwadau ymarfer (parhad)

Mae'r tabl hwn yn dangos beth sydd angen i chi ei wneud i ennill 1, 2 neu 3 marc ar gyfer y meini prawf a nodwyd gyda * ar dudalen 8.

	1 marc	2 farc	3 marc
9 Cwblhau'r gwasanaeth i fodloni'r cleient	Mae'r gwasanaeth wedi'i gwblhau o fewn yr amser y cytunwyd arno, a dod i derfyn yn foddhaol	Mae'r gwasanaeth wedi'i gwblhau o fewn yr amser y cytunwyd arno a dangosir y canlyniad i'r cleient	Mae'r gwasanaeth wedi'i gwblhau o fewn yr amser y cytunwyd arno a dod i derfyn yn foddhaol, dangosir y canlyniad i'r cleient, caiff y canlyniad ei addasu os bydd angen
11 Darparu cyngor ôl-ofal addas	Caiff cyngor ôl-ofal sylfaenol ei ddarparu gan gynnwys gwrth-adweithiau posibl.	Mae lefel dda o gyngor ôl-ofal yn cynnwys cynhyrchion gofal cartref a gwasanaethau yn y dyfodol	Mae cyngor ôl-ofal ardderchog yn cynnwys cynhyrchion gofal cartref, technegau rhoi a symud, a gwasanaethau dyfodol

Mae creu dyluniadau tymhorol yn ffordd dda iawn o roi hwb i'ch incwm adeg y Nadolig, Calan Gaeaf ac yn ystod gwyliau'r haf.

Delwedd diolch i Becky Orme

Ffurflen sylwadau

Uned 218 Darparu celf ewinedd

Gall y ffurflen hon gael ei defnyddio i gofnodi sylwadau gennych chi, eich cleient neu eich asesydd.

Delwedd diolch i EzFlow